# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(99)v5

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 13 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 1 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Trosglwyddwyd y cwestiwn i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 4. Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 6 mewn perthynas â Chadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn

Dechreuodd yr eitem am 14.29

**NDM5104 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 6.23: Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2012; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 6, fel y nodir yn Atodiadau B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Datganiad gan Mick Antoniw: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod – y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) – GOHIRIWYD

## 6. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 14.29

**NDM5096**

**Ken Skates (De Clwyd)**

**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**

**David Melding (Canol De Cymru)**

**Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**

Cefnogwyd gan:

**Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn gresynu bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn dioddef stigma a gwahaniaethu;

2. Yn croesawu Amser i Newid Cymru, sef yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru yn eu hwynebu;

3. Yn nodi'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Amser i Newid Cymru, a oedd yn dangos bod:

a) un ym mhob pedwar yn credu na ddylid caniatáu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl fod mewn swydd gyhoeddus; a

b) um ym mhob 10 yn credu na ddylid caniatáu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gael plant;

4. Yn cydnabod bod pobl sydd â materion iechyd meddwl yn chwarae rhan sylweddol mewn cymdeithas, yn gweithio ar draws ystod o sectorau ac yn gwneud cyfraniadau pwysig at yr economi; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ymgyrch Amser i Newid Cymru a dangos ymrwymiad i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.20

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5105 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth fethiannau hirdymor Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli grantiau yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi datganiadau rheolaidd yn amlinellu'r camau a gymerir i reoli grantiau yn well yng Nghymru; a

b) gweithredu mesurau sy'n gwella'r tryloywder sydd ynghlwm wrth wario arian cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 30 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 24 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud yn ei hadroddiad 'Rheoli Grantiau yng Nghymru' y 'caiff llawer o gynlluniau grant eu rheoli'n wael, anaml mae gwersi yn cael eu dysgu ac anaml mae cyllidwyr yn llwyddo i ddelio â pherfformiad gwael y derbynwyr grantiau', ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro sut y mae'n mynd i'r afael â hyn.

Gellir gweld copi o'r adroddiad 'Rheoli Grantiau yng Nghymru' yn: [http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Grants_Management_Welsh.pdf](http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Grants_Management_Welsh.pdf)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod trefniadau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio gormod ar fewnbwn ariannol, ac nad ydynt yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:
**NDM5105 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi datganiadau rheolaidd yn amlinellu'r camau a gymerir i reoli grantiau yn well yng Nghymru; a

b) gweithredu mesurau sy'n gwella'r tryloywder sydd ynghlwm wrth wario arian cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**8. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.20

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5106 William Graham (Dwyrain De Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod:

a) nifer y bobl anabl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn isel o'i chymharu â gwledydd eraill y DU;

b) diffyg cefnogaeth a gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael iddynt; ac

c) nid oes digon o ddewis o Daliadau Uniongyrchol mewn gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru na rheolaeth drostynt.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i adlewyrchu model yr Alban o gymorth hunangyfeiriedig, i sicrhau bod defnyddwyr gofal cymdeithasol yn gallu rheoli eu pecynnau gofal a chymorth drwy daliadau uniongyrchol a chyfrifon a reolir gan drydydd partïon;

b) gweithio i sefydlu cofrestr genedlaethol wirfoddol o gynorthwywyr personol i sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol i'w harfogi â'r sgiliau i ymdrin ag ystod o gyflyrau; ac

c) annog cynorthwywyr personol i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth os bydd amgylchiadau'n codi nad oedd modd eu rhagweld.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 37 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

'Yn cydnabod nad yw Taliadau Uniongyrchol yn briodol ar gyfer pob person anabl.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

'Yn cydnabod na fyddai rhagor o ddefnydd o Daliadau Unigol yn digolledu pobl anabl am golli'r lwfans byw i'r anabl.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 5 | 12 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

‘cynnal gofal cymdeithasol a gyllidir yn uniongyrchol ochr yn ochr â Thaliadau Uniongyrchol;’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2a dileu ‘i adlewyrchu model yr Alban o gymorth hunangyfeiriedig,’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 24 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2b, dileu ‘sefydlu cofrestr genedlaethol wirfoddol o gynorthwywyr personol i sicrhau bod ganddynt’ a rhoi yn ei le ‘sicrhau bod gan gynorthwywyr personol’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 17 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cydnabod nad yw Taliadau Uniongyrchol yn addas i bawb, ac i gynnal darpariaeth addas ar gyfer y rheini y bydd angen darparu gofal cymdeithasol ar eu rhan o hyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

‘sicrhau bod pobl anabl yn cael gwybodaeth a chyngor am eu hawliau, a bod gwasanaethau cynghori'n gymwys i gynorthwyo pobl anabl i lywio eu ffordd drwy system annheg a diffygiol yr asesiadau gallu i weithio.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:
**NDM5106 William Graham (Dwyrain De Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod:

a) nifer y bobl anabl sy’n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn isel o’i chymharu â gwledydd eraill y DU;

b) diffyg cefnogaeth a gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael iddynt; ac

c) nid oes digon o ddewis o Daliadau Uniongyrchol mewn gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru na rheolaeth drostynt.

2. Yn cydnabod nad yw Taliadau Uniongyrchol yn briodol ar gyfer pob person anabl.

3. Yn cydnabod na fyddai rhagor o ddefnydd o Daliadau Unigol yn digolledu pobl anabl am golli’r lwfans byw i’r anabl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnal gofal cymdeithasol a gyllidir yn uniongyrchol ochr yn ochr â Thaliadau Uniongyrchol;

b) defnyddio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i sicrhau bod defnyddwyr gofal cymdeithasol yn gallu rheoli eu pecynnau gofal a chymorth drwy daliadau uniongyrchol a chyfrifon a reolir gan drydydd partïon;

c) gweithio i sicrhau bod gan gynorthwywyr personol y gefnogaeth a’r hyfforddiant priodol i’w harfogi â’r sgiliau i ymdrin ag ystod o gyflyrau;

d) annog cynorthwywyr personol i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth os bydd amgylchiadau’n codi nad oedd modd eu rhagweld;

e) cydnabod nad yw Taliadau Uniongyrchol yn addas i bawb, ac i gynnal darpariaeth addas ar gyfer y rheini y bydd angen darparu gofal cymdeithasol ar eu rhan o hyd; a

f) sicrhau bod pobl anabl yn cael gwybodaeth a chyngor am eu hawliau, a bod gwasanaethau cynghori'n gymwys i gynorthwyo pobl anabl i lywio eu ffordd drwy system annheg a diffygiol yr asesiadau gallu i weithio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 12 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**CYFNOD PLEIDLEISIO**
Dechreuodd yr eitem am 17.15
**Crynodeb o Bleidleisiau**
**9. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.22

**NDM5103 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):**

Rail Cymru – Rheilffordd y Bobl i Gymru

Yr achos o blaid math newydd o gwmni rheilffordd, y byddai ei brif ymrwymiad i bobl Cymru a'r gororau, nid i grŵp o gyfranddalwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:45

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2012**